

Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Adran Radioleg / Ysbyty Brenhinol
Morgannwg / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad arolygu: 11 a 12 Rhagfyr
2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	3
2.	Crynodeb o'n harolygiad	4
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	6
	Ansawdd profiad y claf	Error! Bookmark not defined.
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio...	33
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 11 a 12 Rhagfyr 2019. Ymwelwyd â'r ardaloedd canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr Adran Radioleg

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwchswyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (Rheoliadau 2017)
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, o'r dystiolaeth a archwiliwyd gennym, roedd cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017 yn dda. Dangosodd trafodaethau â'r staff fod ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau yn unol â Rheoliadau 2017 hefyd yn dda, ar y cyfan.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017 ar gael ac yn gyfredol. Roeddent yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn gymwys i radioleg.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch-aelodau o'r staff.

Nodwyd gennym y gellid gwneud ymdrechion pellach i gyrraedd rhai o'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) ac i fodloni Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn llawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran.
- Roedd uwch-aelodau o'r staff yn croesawu ein harolygiad ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad
- Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio yn yr adran, er mwyn helpu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'
- Sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fel mater o drefn am y risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'u harchwiliadau, a'u bod yn cael manylion ynglŷn â phwy y dylent gysylltu â nhw os byddant yn cael unrhyw broblemau yn dilyn dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio.

- Sicrhau bod y staff yn cynnal gwiriadau adnabod cleifion ac yn holi ynghylch statws beichiogrwydd yn rheolaidd cyn i gleifion ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Cwm Taf ym mis Hydref 2009 ac enillodd statws Prifysgol ym mis Gorffennaf 2013. Ar 1 Ebrill 2019, newidiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ei enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Cwm Taf Morgannwg, gan iddo dderbyn cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i'r bobl yn ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r BIP bellach yn darparu gwasanaethau sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau iechyd meddwl i bobl Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a'r ardaloedd cyfagos.

Mae adran radioleg Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnwys pedair uned radiograffeg gyffredinol (un uned radiograffeg ddigidol a thair uned radiograffeg gyfrifiadurol) a thair uned fflworosgopeg braich-c symudol.

Cynhelir archwiliadau hefyd gan ddefnyddio mathau eraill o gyfarpar, gan gynnwys:

- Sganwyr Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT)
- Unedau uwchsain, mamograffeg a deintyddol
- Sganwyr Atseiniol Magnetig (MR)

Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys Radiolegwyr Ymgynghorol, Radiograffwyr, Uwch Radiograffwyr Ymarfer a Chofrestryddion Arbenigol.

Mae'r adran hefyd yn cael cymorth a chynghor gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol¹ (MPE) drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) rhwng y BIP a'r Gwasanaeth Diogelu rhag Ymbelydredd sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd.

¹ Mae swyddogaethau Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn wahanol i swyddogaeth y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd, neu'r cynghorydd gwastraff ymbelydrol. Yn benodol, mae Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn unigolyn sydd â gradd mewn gwyddoniaeth neu gymhwyster sy'n cyfateb iddi a phrofiad o gymhwyso ffiseg at y defnydd diagnostig ac ymyriadol o ymbelydredd ìoneiddio.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd yr adborth gan gleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan staff yr adran radioleg.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig a pharchus.

Er bod anghenion cyfathrebu'r cleifion yn cael eu diwallu, nodwyd gennym y gellid gwneud gwelliannau er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r cleifion am eu gofal a'u triniaeth. Hefyd, gellid gwneud mwy i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn yr adran.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd yr adran i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion. Diben hyn oedd cael gwybod eu barn am y gwasanaeth a ddarperir. Rhoddwyd holiaduron hefyd i'r cleifion a ymwelodd â'r adran yn ystod ein harolygiad. Derbyniwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau gan gleifion.

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd yr ymatebion yn galonogol iawn, gyda phob un o'r ymatebwyr, fwy neu lai, yn nodi bod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

"Cefais fy nhrin â chwarteisi a pharch mawr. Mae pob aelod o'r staff yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn. Gwasanaeth gwych."

"Mae'r staff bob amser yn wych!"

"Ardderchog. Dim gwelliant".

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos ym mhrif dderbynfa ac ardal aros i gleifion yr adran am sut y gallai'r cleifion edrych ar ôl eu hiechyd eu hunain a gofalu amdanynt eu hunain. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu, ymwybyddiaeth o alcohol a phroffion ceg y groth.

Roedd posteri a oedd wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r adran hefyd yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am radioleg, yn ogystal â gwybodaeth mewn perthynas â'r gweithdrefnau a'r triniaethau eraill sy'n gysylltiedig â Meddygaeth Niwclear a Radiotherapi.

Gofal ag urddas

Gwelwyd y staff yn trin y cleifion mewn ffordd gwrtais, sensitif a phroffesiynol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff yr adran. Roedd y cleifion hefyd yn cytuno eu bod bob amser yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiadau.

Ni welsom unrhyw sgysiau sensitif yn cael eu cynnal yn yr adran yn ystod ein hymweliad, ond nododd yr ymatebion i'r holiaduron fod y cleifion yn teimlo y gallent drafod eu gweithdrefn neu driniaeth â'r staff heb i bobl eraill eu clywed.

Roedd y brif ardal aros i gleifion, yn ogystal â'r is-ardaloedd aros, yn yr adran yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd ciwbiclau newid unigol ar gael i'r cleifion ger yr ystafelloedd archwilio. Mae'r rhain yn rhoi preifatrwydd pan fydd angen i'r cleifion dynnu eu dillad a gwisgo gynau urddas cyn eu harchwiliad ac ar ôl hynny.

Er na wnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin, gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn holi am eu lles. Roedd drysau ystafelloedd pelydr-X yn cael eu cau pan oedd claf yn cael cyfarfod ymgynghori / triniaeth.

Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ar gael ar gyfer cleifion a'i bod wedi'i harddangos yn yr adran, a hynny mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys yr hyn y dylai'r cleifion ei ddisgwyl o ran eu triniaeth / gweithdrefn. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael gwybodaeth glir i'w helpu i ddeall y risgiau a'r buddiannau a oedd yn gysylltiedig â'u harchwiliad neu driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd nifer bach o'r cleifion wrthym nad oeddent o'r farn eu bod wedi cael gwybodaeth glir.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn perthynas â phenderfyniadau am eu triniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain ar ôl eu triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi cael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar unrhyw ôl-ffeithiau y byddent o bosibl yn eu cael ar ôl unrhyw driniaethau. Nododd un claf:

"Byddai'r wybodaeth hon o gymorth pe byddai unrhyw ymholiadau yn codi".

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r BIP sicrhau y caiff cleifion wybodaeth fel mater o drefn, sy'n amlinellu'r risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'u gweithdrefn / triniaeth.

Mae'n rhaid i'r BIP sicrhau y caiff cleifion wybodaeth fel mater o drefn, sy'n nodi â phwy y dylent gysylltu os bydd unrhyw broblemau yn dilyn eu gweithdrefn / triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'gymharol hawdd' dod o hyd i'r adran ar ôl iddynt gyrraedd yr ysbyty.

Cadarnhaodd staff y dderbynfa fod dolen sain wedi'i gosod a'i bod yn helpu pobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw wrth gyfathrebu â'r staff. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn Braille neu brint bras yn cael ei darparu ar gais er mwyn helpu'r cleifion hynny â nam ar eu golwg.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Hefyd, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiadau.

Gwelsom fod posterï a gwybodaeth arall ar ffurf taflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd, cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod nifer o staff yn yr adran, gan gynnwys rhai radiograffwyr a meddygon ymgynghorol, yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg ar unwaith yn ardaloedd cyhoeddus yr adran y gallai'r cleifion siarad â'r staff yn Gymraeg pe dymument.

Roedd uwch-aelodau o'r staff yn fodlon derbyn ein sylwadau ac yn cytuno y gellid gwneud mwy i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran, er mwyn helpu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'².

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r BIP roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran er mwyn helpu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur wrthym eu bod yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'gymharol hawdd' cael apwyntiadau. Fodd bynnag, roedd rhai yn anghytuno. Nododd un claf:

“Yr unig beth negyddol yw ei bod wedi cymryd o fis Awst tan fis Rhagfyr i gael yr apwyntiad.”

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod wedi aros llai na 15 munud i gael eu triniaeth ar ôl cyrraedd yr adran. Dywedodd eraill wrthym eu bod wedi aros mwy na 30 munud.

Nid oedd unrhyw ddull ar waith i hysbysu'r cleifion am yr amser aros ar y pryd, a nododd ymatebion y mwyafrif o'r cleifion i'r holiadur na chawsant wybod wrth gyrraedd pa mor hir y byddent yn debygol o orfod aros am eu gweithdrefn neu driniaeth. Trafodwyd y mater hwn â'r uwch-reolwyr, a ddywedodd wrthym, o ystyried natur adweithiol yr adran, y gall fod yn anodd rhoi amser aros bras i'r cleifion pan fyddant yn cyrraedd. Dywedwyd wrthym ar yr adegau lle y byddai cleifion o bosibl yn wynebu cyfnod aros sylweddol, y byddent yn cael eu hysbysu.

² Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

Mae'n un o egwyddorion allweddol 'Mwy na Geiriau', sef menter Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. <https://llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-iechyd-mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-i-2020>

Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a gawsom, dylai'r BIP ystyried ffyrdd eraill o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r BIP roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i hysbysu cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros ar y ar y pryd mewn ffordd well.

Gofal Unigol

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gweithdrefn ar waith gan y BIP ar gyfer ymateb i unrhyw bryderon a geir gan gleifion mewn perthynas â'r gwasanaethau a gânt. Roedd y weithdrefn yn unol â gweithdrefn gwyno'r GIG i Gymru gyfan, sef Gweithio i Wella³.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod yn cael gwybod am bryderon drwy'r Tîm Gweithio i Wella pan fydd yn eu derbyn. Cawsom wybod bod elfen Radioleg y pryderon a geir fel arfer yn rhan o bryder cyffredinol y claf unigol.

Roedd rhywfaint o wybodaeth wedi'i harddangos yn ardal prif ystafell aros yr adran mewn perthynas â 'Gweithio i Wella'. Fodd bynnag, dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd ein holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn. O ystyried yr adborth hwn, dylid gwneud ymdrech i hysbysu'r cleifion yn well am weithdrefn gwyno'r BIP.

Dywedodd y staff wrthym, pan fyddai pryderon llafar yn cael eu codi gan y cleifion, lle y bo'n bosibl, y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i ymdrin â phroblemau'r cleifion ar unwaith (h.y. yn y fan a'r lle) er mwyn helpu i ddatrys unrhyw broblemau yn gyflym ac yn effeithlon.

³ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddiwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos am y Cyngor Iechyd Cymuned⁴ (CIC). Gall y CIC gynnig cymorth a chyngor i unrhyw unigolion sydd am godi pryderon am eu triniaeth yn y GIG.

Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r adran radioleg. Roedd hysbysfwrdd 'Dweud eich dweud' wedi'i arddangos yn glir wrth ymyl prif ddesg y dderbynfa yn yr adran. Roedd bocs a chardiau adborth o flaen y bwrdd er mwyn i ymwelwyr â'r adran allu rhoi adborth am eu profiadau.

Cwblhawyd archwiliad boddhad cleifion yn 2019 ar gyfer Adran Radioleg gyfan BIP Cwm Taf Morgannwg. Fel rhan o'r archwiliad, gofynnwyd am farn cleifion a oedd wedi ymweld â phob Adran Radioleg yn y pum ysbyty sy'n rhan o'r BIP, sef Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty Tywysog Siarl, Ysbyty Cwm Rhondda, Ysbyty Cwm Cynon a Dewi Sant. Diben yr archwiliad oedd meithrin gwell dealltwriaeth o berfformiad yr adran gyfan o safbwynt y cleifion.

Ymdriniodd yr archwiliad â phedwar maes, sef trefnu apwyntiadau, archwiliadau, glendid a phrofiadau cyffredinol. Roedd canlyniadau cyffredinol yr arolwg hwn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd nifer o argymhellion hefyd yn deillio o'r adborth a gafwyd gan y cleifion a oedd yn cynnwys yr angen i sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw oedi mewn perthynas â'u hapwyntiadau pan fyddant yn cyrraedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r BIP ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwbl ymwybodol o'u hawl i godi pryderon am eu gofal neu driniaeth yn y GIG.

Dylai'r BIP sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n hysbysu cleifion am rôl y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC).

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/page/71619>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017 yn dda o'r dystiolaeth a oedd ar gael a'r trafodaethau a gynhaliwyd â'r staff.

Roedd ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau o dan Reoliadau 2017 yn dda iawn ar y cyfan.

Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017 ar gael ac yn gyfredol. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn gymwys i radioleg.

Tynnwyd sylw at rai meysydd i'w gwella o ran cysondeb wrth gofnodi gwiriadau adnabod cleifion ac ymholiadau ynghylch statws beichiogrwydd cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Y nod oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ac mae'n un o'r gweithdrefnau sy'n ofynnol gan gyflogwyr o dan Reoliadau 2017.

Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir yr aelodau hynny o'r staff sy'n gyfrifol am adnabod cleifion yn gywir. Roedd disgwyl i'r staff ofyn i gleifion gadarnhau eu

henw, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad. Roedd hyn yn unol â chanllawiau presennol y DU⁵.

Roedd y weithdrefn hefyd yn disgrifio'r ffyrdd amgen y byddai'n rhaid i'r staff eu defnyddio pe na bai cleifion yn gallu cadarnhau eu manylion ar lafar eu hunain, gan hyrwyddo diogelwch cleifion ymhellach.

Yn ystod ein hadolygiad o'r weithdrefn, nodwyd y gall fod angen gwybodaeth ychwanegol, yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn wrth gynnal gwiriadau adnabod ar gyfer cleifion pediatrig. Dylai'r weithdrefn hefyd nodi y dylai'r staff ddogfennu cofnod o'r gwiriad hwn. Trafodwyd y mater gydag uwch-aelodau o staff fel rhan o'n harolygiad, a derbyniwyd ein hawgrym.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir ar gyfer adnabod cleifion.

Cadarnhaodd fwy neu lai bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn iddynt ddechrau eu triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym na ofynnwyd iddo gadarnhau ei fanylion cyn ei driniaeth. Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff pob aelod o'r staff ei atgoffa o bwysigrwydd dilyn y broses a amlinellir yng ngweithdrefn adnabod cleifion y BIP, er mwyn lleihau'r risg y daw'r claf i gysylltiad anghywir ag ymbelydredd ïoneiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cynnal gwiriadau adnabod ar gyfer cleifion cyn pob cysylltiad, yn unol â gweithdrefn y BIP.

Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr ddwy weithdrefn ar wahân ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer holi unigolion sy'n gallu beichiogi am feichiogrwydd cyn i unrhyw

⁵ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017

glaf ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Roedd y gweithdrefnau yn nodi'r prosesau i'w dilyn ar gyfer cysylltiad dos uchel a chysylltiad dos isel.

Y nod oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson. Roedd y gweithdrefnau yn nodi'n glir y staff hynny a oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol ac roedd yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn.

Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig yn cynnwys ystod oedran y cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd yn unol â chanllawiau'r DU⁶.

Fel rhan o'n hadolygiad o'r gweithdrefnau hyn, tynnwyd sylw at rai awgrymiadau y dylai'r cyflogwr ystyried eu cynnwys yn y dogfennau. Trafodwyd yr awgrymiadau hyn â'r uwch-reolwyr yn ystod ein harolygiad ac roeddent yn cynnwys ychwanegu canllawiau i staff at y gweithdrefnau mewn perthynas â chleifion trawsrywiol a chleifion anymatebol.

Roedd posteri wedi'u harddangos yn yr adran yn hysbysu unigolion y dylent siarad ag aelod o'r staff os oeddent naill ai'n feichiog neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog. Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau unrhyw niwed posibl i blentyn yn y groth o ganlyniad i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â holi am feichiogrwydd, a oedd yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir uchod. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai statws beichiogrwydd yn cael ei gadarnhau ar lafar â gofalwyr a chysurwyr cyn unrhyw gysylltiad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd yr ymholiad hwn yn cael ei gofnodi. Trafodwyd y gallai'r adran ystyried a ellid cofnodi'r ymholiadau beichiogrwydd hyn â gofalwyr a chysurwyr er mwyn sicrhau cofnodion cyflawn.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu hap-sampl o gofnodion cleifion. Nid oedd un o'r setiau o gofnodion a adolygwyd, a oedd yn ymwneud ag unigolyn o oedran sy'n gallu beichiogi, yn cynnwys tystiolaeth bod y staff wedi cynnal gwiriad o statws beichiogrwydd yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y staff eu hatgoffa o bwysigrwydd cwblhau gwiriadau o statws beichiogrwydd fel mater o drefn lle y bo'n briodol ac y caiff tystiolaeth o'r gwiriadau hyn hefyd ei chofnodi.

⁶ Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017.

Dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod y gwiriadau gofynnol o statws beichiogrwydd yn cael eu cynnal gan y staff fel mater o drefn ac y caiff cofnodion y cleifion eu diweddarau er mwyn dangos tystiolaeth bod gwiriad wedi'i gynnal.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd yn nodi'r meini prawf ar gyfer unigolion sy'n dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol⁷.

Dywedwyd wrthym nad oedd delweddu anfeddygol yn atgyfeiriad cyffredin, ac mai dim ond o bryd i'w gilydd y byddai'r weithdrefn yn cael ei chyflawni yn y BIP ar gyfer achosion meddygol cyfreithiol ac at ddibenion yswiriant iechyd.

Canllawiau atgyfeirio

Roedd gan y cyflogwr ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar waith. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael i'r rhai sydd â hawl i atgyfeirio o dan Reoliadau 2017.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad yn deall y canllawiau a'r broses atgyfeirio a oedd ar waith.

Ar hyn o bryd, atgyfeiriadau papur yw'r holl atgyfeiriadau a gyflwynir i'r adran ar gyfer delweddu, gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio'r adran radioleg. Ar ôl derbyn unrhyw atgyfeiriad, caiff ei gofrestru ar system electronig RadIS⁸.

Gwnaethom adolygu hap-sampl o ddogfennau atgyfeirio cleifion fel rhan o'n harolygiad. Roedd diwyg y ffurflenni atgyfeirio a adolygwyd yn glir ac roedd y wybodaeth glinigol a ddarparwyd yn unol â'r canllawiau atgyfeirio.

⁷ Mae unigolion sy'n dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol yn cynnwys asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhain hefyd gael eu cyflawni i nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.

⁸ Mae System Gwybodaeth Radioleg Cymru Gyfan (WRIS), RadIS, sy'n ei gwneud yn bosibl i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gofal cleifion di-dor ym mhob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar gael i bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau yn cynnwys digon o fanylion clinigol ac wedi'u llofnodi gan ymarferydd â'r hawl briodol i wneud hynny, yn cadarnhau'r cyfiawnhad⁹. Fodd bynnag, nid oedd un o'r cofnodion a welsom wedi'i lofnodi i gadarnhau a oedd y broses gyfiawnhau wedi'i chwblhau a pha ymarferydd a gyflawnodd y cysylltiad. Mae'r mater hwn hefyd wedi'i nodi o dan yr is-bennawd cyfiawnhad yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Nid oedd cofnod arall a welsom yn cynnwys unrhyw dystiolaeth bod gwerthusiad clinigol wedi'i gynnal ar gyfer y claf ar ôl cwblhau'r archwiliad a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2019.

Dyletswyddau'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi'r gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio a chyflawni archwiliadau radioleg ar gyfer cleifion, a gwahanol rolau'r gweithwyr proffesiynol hynny. Roedd gweithdrefn y cyflogwr o ran sut i roi Rheoliadau 2017 ar waith yn yr adran yn nodi pwy, yn ôl grŵp staff, all fod yn atgyfeirwyr¹⁰, yn ymarferwyr¹¹ ac yn weithredwyr¹² (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Ceir gwybodaeth ym Mholisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio y cyflogwr am y gofynion cymhwysedd / hyfforddi sylfaenol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.

Mae hawl yn gysylltiedig â chwblhau'r gwiriadau hyfforddi a chymhwysedd perthnasol ar gyfer cyfarpar ac archwiliadau penodol. Yn yr ysbyty hwn, cynhelir

⁹ Cyfiawnhau yw'r broses o bwysio a mesur manteision disgwylidig cysylltiad yn erbyn y niwed y gallai'r dos ymbelydredd cysylltiedig ei achosi.

¹⁰ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiadau meddygol.

¹¹ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

¹² O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

trafodaeth hefyd ag uwch-aelodau o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gweithdrefnau a'r protocolau cyn cymeradwyo hawl.

Dyfernir hawl i Ymarferwyr a Gweithredwyr gan Gyfarwyddwr Clinigol yr Adran Radioleg. Mae gan bob aelod o'r staff gopiâu o'u tystysgrifau hawl unigol a chaiff yr hawliau eu harddangos hefyd ar fatrics staff.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliaid dyletswydd perthnasol a chwmpas eu hawl o dan Reoliadau 2017.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael gafael ar fersiynau electronig cyfredol o bolisiâu a gweithdrefnau'r cyflogwr drwy yriant yr adran a rennir ar-lein. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff fynediad at gyfrifiadur yn yr adran.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff y system ar gyfer hysbysu staff yr adran am unrhyw newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau yn yr adran. Fel rhan o'r broses, roedd aelodau unigol o'r staff yn cael manylion am unrhyw ddogfennau a gafodd eu hadolygu a'u diweddarau. Wedyn, gofynnwyd i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen ac wedi deall y newidiadau perthnasol, a gwnaed cofnod o'r cadarnhad hwnnw a'i gadw. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r system a oedd ar waith.

Mae contract ar waith rhwng pob bwrdd iechyd yng Nghymru i Everlight Radiology¹³ ddarparu gwasanaeth adroddiadau radioleg sy'n cynnwys, mewn rhai achosion, cyfiawnhad y tu allan i oriau o archwiliadau penodedig a gwerthusiadau clinigol cysylltiedig. Roedd manylion am y trefniant hwn wedi'u nodi yn nogfennaeth weithdrefnol y cyflogwr. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at anghysondebau yn y ffordd yr oedd hawl Radiolegydd Everlight wedi'i diffinio yn y ddogfennaeth a ddarparwyd. Trafodwyd y mater â'r uwch-reolwyr yn ystod ein harolygiad a chytunwyd y dylid diwygio hawl ddiffiniedig Everlight er mwyn sicrhau cysondeb yn yr holl ddogfennaeth.

¹³ Mae Everlight Radiology yn ddarparwr gwasanaethau teleradioleg mawr wedi'i leoli yn Llundain ac Awstralia.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod dogfennaeth yn glir a chyson mewn perthynas â hawl Everlight Radiology i ddarparu'r gwasanaethau radioleg a ddarperir ar ran y BIP.

Cyfiawnhau Cysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol.

Trafodwyd y broses gyfiawnhau â nifer o wahanol aelodau o'r staff yn yr adran ac roedd yn amlwg eu bod yn deall y broses.

Roedd cyfiawnhad dros gysylltiadau meddygol unigol yn cael ei gofnodi ar ffurflenni ceisiadau'r adran radioleg, gan gynnwys y dyddiad a llofnod yr ymarferydd. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu sampl o atgyfeiriadau radioleg. Nid oedd un o'r cofnodion a welsom yn darparu unrhyw dystiolaeth o gyfiawnhad dros y cysylltiad, gan nad oedd unrhyw lofnod gan ymarferydd â'r hawl briodol.

O ystyried y diffiniad o ofalwyr a chysurwyr yn IR(ME)R 2017, cawsom drafodaethau ag uwch-reolwyr am yr agwedd hon ar y gwasanaeth a ddarperir. Dywedwyd wrthym y rhoddwyd yr hawl i radiograffwyr weithredu fel ymarferwyr er mwyn eu galluogi i gyfiawnhau'r cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr. Dywedwyd wrthym mai'r math o archwiliad fyddai'n penderfynu pa ddeiliad dyletswydd fyddai'n cyfiawnhau'r achos. Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, y deiliad dyletswydd a fyddai'n cynnal y weithdrefn fyddai'n cyfiawnhau'r cysylltiad i ofalwyr a chysurwyr.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, nodwyd ar yr adegau lle roedd Everlight Radiology yn darparu cyfiawnhad dros gysylltiad meddygol unigol, yn unol â'r cytundeb contract y tu allan i oriau sydd ar waith, nad oedd enw'r ymarferydd unigol a oedd yn cyfiawnhau'r cysylltiad yn cael ei gofnodi ar y ddogfennaeth berthnasol. Ar gyfer unrhyw gysylltiad meddygol neu anfeddygol, mae angen nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad.

Trafodwyd y mater hwn ymhellach ag uwch-reolwyr o'r adran a dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff yn ffonio i ofyn am enw'r ymarferydd ar ôl derbyn y ddogfennaeth sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi. Cytunwyd bod angen diweddarau'r ymarfer hwn.

Gan fod y contract y tu allan i oriau ag Everlight ar waith â phob bwrdd iechyd yng Nghymru, mae'n debygol y gallai hyn fod yn broblem mewn Adrannau Radioleg eraill. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn am esboniad a sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau pob cysylltiad.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio¹⁴ cysylltiadau. Er enghraifft, mae'r Tîm Optimeiddio Delweddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn yr adran radioleg. Gofynnir i'r staff nodi pryd y bydd yn debygol y gellid optimeiddio cyfarpar ac i weithredu'n unol â hynny. Hefyd, bydd y Tîm Optimeiddio Delweddau yn adolygu prosesau eraill sydd ar waith er mwyn nodi unrhyw welliannau neu newidiadau posibl mewn ymarfer y dylid eu gwneud.

Mae'n amlwg o'n harolygiad bod y Tîm Optimeiddio Delweddau yn gweithio'n dda a bod staff yr adran radioleg yn ymgysylltu'n amlwg â'r tîm hwnnw. Byddem yn annog y tîm i barhau â'i waith, a chynnwys yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol (Rheoliad 14(2)(c)).

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff fod protocolau a gosodiadau cysylltiad pediatriig yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod cysylltiadau i blant yn cael eu hoptimeiddio ac roedd tystiolaeth o'r gosodiadau cysylltiad pediatriig i'w gweld mewn nifer o'r ardaloedd yr ymwelwyd â nhw.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd prosesau ar waith ar gyfer pennu, gweithredu ac adolygu Lefelau Cyfeirio Diagnostig. Yn ystod ein taith o amgylch yr adran, nodwyd gennym fod Lefelau

¹⁴ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cyfeirio Diagnostig wedi'u harddangos yn glir yn yr holl ardaloedd yr ymwelwyd â nhw.

Roedd yr holl Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol a archwiliwyd naill ai islaw'r Lefel Cyfeirio Diagnostig genedlaethol ar gyfer yr archwiliad dynodedig neu'n unol â'r lefel honno.

Wrth drafod â'r uwch-reolwyr, cawsom wybod bod y Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol yn cael eu hadolygu'n barhaus drwy raglen o optimeiddio protocolau a gynhelir ar y cyd â'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Gwelwyd tystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Tîm Optimeiddio Delweddau a oedd yn dangos bod y tîm yn canolbwyntio ar optimeiddio protocolau a goruchwylio Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol. Mae Rheoliad 14(2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol mewn perthynas ag optimeiddio a'r gobaith yw y bydd y Tîm Optimeiddio Delweddau yn cynnig cymorth priodol i'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol wrth optimeiddio protocolau.

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi'u cynnal o'r broses o fewnbynnu dosau ar RadIS gan y staff yn dilyn triniaethau yn yr adran. Nododd canlyniadau'r archwiliad diweddaraf a oedd ar gael ar adeg ein harolygiad fod 96% o'r dosau wedi cael eu cofnodi'n electronig ar gyfer yr holl archwiliadau Radioleg a gwblhawyd. Fel rhan o'n hadolygiad o ddogfennaeth cleifion, roedd yr holl gofnodion a adolygwyd yn cynnwys tystiolaeth fod y dosau wedi'u cofnodi ar RadIS.

Gwerthuso clinigol

Roedd gweithdrefn (EP10) ar waith gan y cyflogwr, a oedd yn disgrifio'r broses ar gyfer gwerthuso clinigol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl archwiliadau a chysylltiadau lle y defnyddir ymbelydredd ïoneiddio yn cynnwys gwerthusiad clinigol gan aelod o'r staff â'r hawl briodol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, fel rhan o'n hadolygiad o hap-sampl o gofnodion cleifion, nid oedd un o'r cofnodion cleifion a welsom yn cynnwys unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwerthusiad clinigol wedi'i gynnal bedair wythnos ar ôl cwblhau'r archwiliadau. Wrth drafod ag uwch-aelodau o'r staff, roedd yn amlwg bod oedi cyn gwerthuso rhai archwiliadau. Yn ystod yr ymweliad â'r adran, disgrifiodd y staff rai o'r prosesau sydd ar waith, fel dangosfwrdd adrodd, a ddefnyddir i flaenoriaethu gwerthusiadau clinigol er mwyn ceisio ymdrin â'r amseroedd aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerir i sicrhau y caiff adroddiadau gwerthuso clinigol ar gleifion eu cwblhau fel mater o drefn o fewn terfyn amser rhesymol.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr restr gyfredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran radioleg. Roedd y rhestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017.

Dywedodd yr uwch-aelodau o staff wrthym fod yr holl gyfarpar yn yr adran yn cael ei gynnal a'i gadw'n llawn o dan gontractau gwasanaeth. Hefyd, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod profion sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y cyfarpar delweddu.

Dangoswyd gweithdrefn yr oedd y staff radiograffeg yn ei dilyn er mwyn sicrhau ansawdd cyfarpar i'r tîm arolygu a gwelwyd nifer o gofnodion sicrhau ansawdd ar gyfer yr ystafell archwiliadau. Esboniodd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol fod yr ymarfer blynyddol a oedd yn cael ei gynnal gan y gwasanaeth diogelu rhag ymbelydredd ar gyfer sicrhau ansawdd y cyfarpar yn mynd rhagddo ar y pryd.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da, ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Roedd yr adran ar y llawr gwaelod ac roedd mynediad gwastad i bob rhan ohoni. Roedd hyn yn galluogi cleifion ag anawsterau symudedd i ddod i mewn i'r adran a'i gadael yn ddiogel.

Roedd yr adran yn lân, ac nid oedd unrhyw rwystrau na pheryglon baglu amlwg ar y cyfan. Roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith er mwyn rhwystro ac atal unrhyw unigolion heb awdurdod rhag mynd i mewn i ardaloedd lle roedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau effeithiol ar waith i atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da, ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, cleifion ac ymwelwyr â'r adran. Ar adeg ein harolygiad, roedd pob rhan o'r adran yn ymddangos yn lân ac yn daclus ar y cyfan.

Dyweddodd yr uwch-aelodau o staff wrthym fod ganddynt gydberthynas dda â'r tîm rheoli heintiau, a oedd yn gallu rhoi cyngor i'r adran pan oedd ei angen. Roeddent hefyd yn ymgynghori â'r tîm yn ystod camau cynllunio y broses o ddatblygu adrannau newydd yr adran er mwyn sicrhau bod materion rheoli heintiau yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses.

Mae gan yr adran hyrwyddwyr golchi dwylo sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiaeth mewn perthynas â hylendid dwylo. Dywedwyd wrthym fod canfyddiadau archwiliadau yn cael eu coladu a bod staff yr adran yn cael eu hysbysu amdanynt.

Roedd rhestrau gwirio ar gyfer y weithdrefn lanhau ar gael ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth a welsom. Roedd labeli glanhau yn cael eu rhoi ar gyfarpar er mwyn dangos pryd y cafodd ei lanhau ddiwethaf er mwyn sicrhau bod cyfarpar yn cael ei lanhau'n rheolaidd.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol megis menig untro ar gael iddynt bob amser. Mae defnyddio cyfarpar diogelu personol, ynghyd â phrosesau golchi dwylo effeithiol, yn bwysig er mwyn lleihau achosion o heintio.

Cododd yr uwch-aelodau o staff bryderon am yr hyfforddiant rheoli heintiau y mae angen i'r staff radioleg ymgymryd ag ef. Roedd yr uwch-aelodau o staff o'r farn bod yr hyfforddiant presennol i raddau helaeth yn ymwneud yn benodol â nyrsio ac y byddai'n fuddiol cynnig hyfforddiant rheoli heintiau wedi'i deilwra'n arbennig i radioleg, a fyddai'n fwy perthnasol i staff yr adran.

O ganlyniad i'r pwysau staffio cyfredol yn yr adran, bu'n anodd i'r staff gwblhau'r hyfforddiant rheoli heintiau lefel dau. Fodd bynnag, datgelodd trafodaethau â'r staff fod pawb, ac eithrio un aelod o'r staff, wedi cwblhau'r hyfforddiant lefel un eDdysgu (ar-lein) gofynnol ar reoli heintiau. Roedd yr aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef nad oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant eto yn ymgymryd â'r broses sefydlu ac roedd yr hyfforddiant wedi'i drefnu.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn meddu ar wybodaeth dda am ei gyfrifoldebau mewn perthynas â heintiau a rheoli.

Nododd pob ymateb i'r holiadur, fwy neu lai, fod yr adran yn 'lân iawn' neu'n 'gymharol lân'.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Dangosodd trafodaethau â'r staff yn yr adran ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau diogelu cyfredol sydd ar waith. Cawsom wybod hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein i'w helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu perthnasol.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwilio clinigol

Darparwyd gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017 mewn perthynas ag archwilio clinigol. Darparwyd tystiolaeth o'r archwiliadau a gwblhawyd eisoes eleni, yn ogystal â'r amserlen archwiliadau ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Cawsom wybod bod yr archwiliadau clinigol yn yr adran radioleg yn cael eu harwain gan Radiolegydd Ymgynghorol.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu rhannu. Caiff cyfarfodydd archwilio eu trefnu bob chwarter i bob grŵp o staff. Ymarferwyr a gweithredwyr sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn bennaf, ond weithiau bydd rhai atgyfeirwyr o'r tu allan i'r adran radioleg yn bresennol, gan ddibynnu ar y pynciau archwilio i'w trafod.

Fel rhan o bolisi diogelu rhag ymbelydredd y BIP, argymhellwyd y dylid cwblhau archwiliadau er mwyn asesu priodolrwydd atgyfeiriadau a'u hansawdd, ac y dylid cofnodi'r canlyniadau clinigol yn nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau â'r uwch-aelodau o staff, nodwyd nad oedd yr un o'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym eu bod yn ystyried cynnwys yr archwiliadau hyn yn y rhaglen radioleg gyffredinol.

Cyngor arbenigol

Roedd un Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn gweithio gyda'r BIP o dan y cytundeb lefel gwasanaeth â'r Gwasanaeth Diogelu rhag Ymbelydredd yng Nghaerdydd. Roedd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'i restru ar y rhestr gymeradwy ar gyfer RPA 2000, sef y corff ardystio ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Cawsom wybod gan yr uwch-aelodau o staff fod yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael ei gynnwys yng ngwaith yr adran radioleg, gan gynnwys yr ymarferion optimeiddio protocolau parhaus i geisio sicrhau bod Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol yn unol â lefelau cenedlaethol ac archwiliadau rheolaidd o lefelau dosau er

mwyn gallu adolygu ffactorau cysylltiad yn barhaus. Dylai'r gwaith penodol o optimeiddio protocolau barhau er mwyn sicrhau bod Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol yn gyson â'r Lefel Cyfeirio Diagnostig genedlaethol ar gyfer yr archwiliad hwnnw (maent yn uwch ar hyn o bryd), gyda chymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Os na ellir ymdrin â'r gwerthoedd uwch hyn, gan sicrhau eu bod yn unol â'r Lefel Cyfeirio Diagnostig genedlaethol, dylai'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol gyflwyno datganiad yn rhoi esboniad addas.

Dyweddodd yr uwch-aelodau o staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol i gael cyngor pan oedd angen gwneud hynny ar sail ad hoc.

Ymchwil feddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn sefydledig ar waith mewn perthynas â chysylltiadau Ymchwil Feddygol (EP7). Cafwyd trafodaeth ag uwch-aelodau o'r staff am y weithdrefn hon ac awgrymwyd y gellid cynnwys mwy o fanylion gweithredol yn y ddogfen. Dywedodd y staff wrthym y caiff manylion ychwanegol eu hystyried.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Disgrifiodd y staff systemau rheoli gwybodaeth yr adran a'u dangos i ni. Roedd y systemau sydd ar waith yn golygu y gellir cofnodi gwybodaeth a manylion perthnasol am gleifion mewn perthynas â thriniaethau diagnostig ac ymyriadol a gyflawnwyd ac y gall y staff gael gafael arnynt yn hawdd.

Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o gofnodion gofal cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion a welsom yn cynnwys manylion priodol wedi'u cwblhau gan yr aelodau hynny o staff a oedd yn bresennol ar adeg y cysylltiad. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nodwyd problem o ran cofnodi manylion yr ymarferydd â'r hawl berthnasol er mwyn dangos bod cyfiawnhad dros gysylltiadau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ei ddisgrifio a'i arddangos.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch-aelodau o'r staff yn yr adran. Roedd yn amlwg o'n harolygiad bod cydberthynas dda rhwng staff yr adran a'r uwch-reolwyr.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff fod problemau recriwtio parhaus, ond roedd y BIP yn ymdrin â'r sefyllfa mewn ffordd weithredol er mwyn lleihau'r effaith ar y broses o ddarparu gwasanaethau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd clir ei ddisgrifio a'i arddangos. Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod yr adran radioleg yn gweithredu'n effeithiol.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod yr uwch-reolwyr i'w gweld yn rheolaidd a'i bod yn hawdd mynd atynt os oedd ganddynt unrhyw broblemau neu ymholiadau i'w trafod.

Roedd uwch-reolwyr ar gael yn ystod diwrnodau'r arolygiad, gan hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad.

Cyn yr arolygiad, roedd AGIC wedi gofyn i uwch-aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Y nod oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn

perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Rhoi hawl

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd system addas ar waith gan y cyflogwr i nodi'r gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol a oedd yn gysylltiedig ag atgyfeirio cleifion a chynnal archwiliadau radioleg, a rolau'r gweithwyr proffesiynol hynny, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017. Roedd polisi'r cyflogwr ar gyfer rhoi Rheoliadau 2017 ar waith yn yr adran yn nodi personél, yn ôl grŵp o staff (deiliaid dyletswydd).

Ar y cyfan, roedd y cofnodion hawliau staff a welsom fel rhan o'n harolygiad yn gyflawn ac yn gyfredol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd lle roedd angen mwy o fanylion wrth nodi'r trefniadau ar gyfer rhoi hawl. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth groes yn y weithdrefn rhoi hawl a'r polisi diogelu rhag ymbelydredd wrth gyfeirio at bwy sy'n rhoi hawl i radiolegwyr Everlight, sy'n darparu gwasanaethau gwerthuso a chyfiawnhau clinigol trydydd parti. Mae angen diwygio'r manylion sy'n cyfeirio at hawl peirianwyr cynnal a chadw hefyd. Trafodwyd y materion a nodwyd a chytunwyd arnynt â'r uwch-reolwyr yn ystod ein harolygiad, a gwneir argymhellion ar gyfer y gwelliannau sydd eu hangen yn gynharach yn yr adroddiad hwn lle y bo'n berthnasol.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Prif Weithredwr y BIP oedd y cyflogwr dynodedig. Roedd manylion y trefniant hwn wedi'u nodi ym Mholisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio'r BIP. Ar adeg ein harolygiad, cawsom wybod bod y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau a bod disgwyl iddo gael cymeradwyaeth derfynol yng nghyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg y Bwrdd Iechyd. Gwnaed nifer o awgrymiadau yn ystod ein sgysiau â'r uwch-reolwyr o ran y manylion sydd yn y ddogfen ar hyn o bryd, er mwyn helpu â'r broses barhaus o ddiwygio'r ddogfen.

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig clir wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn unol â Rheoliadau 2017.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad fod fersiynau cyfredol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gael iddynt. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff fod staff yr adran yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i ddogfennau, a'u bod yn gofyn iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y newidiadau perthnasol.

Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol yn yr adran, ac ymchwilio iddynt (Rheoliad 8(3)).

Mae gweithdrefn y cyflogwr yn nodi'n glir y broses y dylai'r staff ei dilyn os byddant yn amau cysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol. Roedd y weithdrefn yn rhoi gwybodaeth i'r staff am y broses i'w dilyn ac, o ganlyniad, roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cael gwybod am ddigwyddiadau o'r fath mewn modd amserol.

Cawsom wybod bod unrhyw ddigwyddiadau neu ddogwyddiadau a fu bron â digwydd yn cael eu cofnodi drwy Datix, y system rheoli digwyddiadau a ddefnyddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Caiff digwyddiadau ymbelydredd eu dwyn i sylw'r Radiograffydd arweiniol ar gyfer y dull penodol er mwyn gallu dosbarthu a thrafod y dadansoddiad. Roedd pob digwyddiad yn cael ei adolygu ac, yn ystod ein harolygiad, darparwyd gwybodaeth ddadansoddi er mwyn dangos hyn. Wrth i ni adolygu'r wybodaeth hon, gwelsom mai dim ond dadansoddiadau rhifol oedd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw fanylion yn y wybodaeth a welsom o ran manylion penodol y digwyddiadau na dadansoddiad manwl o ddogwyddiadau ymbelydredd a digwyddiadau a fu bron â digwydd a fyddai'n nodi tueddiadau, yn galluogi i wersi gael eu rhannu ac yn nodi newidiadau o ran arferion er mwyn gwella diogelwch cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses i'w dilyn o ran rhoi gwybod am ddogwyddiadau yn ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Mae'n ofynnol o dan Reoliadau 2017 (Atodlen 2(I)) i sicrhau bod gan gyflogwyr weithdrefn ar waith sy'n nodi manylion am y broses ar gyfer sicrhau y caiff yr atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r unigolyn a ddaeth i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio (neu ei gynrychiolydd) eu hysbysu am unrhyw ddogwyddiad lle ceir cysylltiad damweiniol neu anfwriadol clinigol sylweddol perthnasol a chanlyniad y dadansoddiad a wnaed o'r digwyddiadau hyn.

Ar ôl adolygu gweithdrefn y cyflogwr, nodwyd bod angen manylion am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol clinigol gan nad oeddent wedi'u disgrifio'n glir yn y weithdrefn bresennol. Rhannwyd y wybodaeth yr

awgrymir y dylid ei chynnwys â'r BIP er mwyn helpu i ddiweddarau'r weithdrefn gan nodi'r manylion ychwanegol perthnasol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerir i sicrhau y cynhelir dadansoddiadau manwl (gan gynnwys dadansoddi themâu a thueddiadau) o gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu ac y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith.

Dylai gweithdrefn y cyflogwr gynnwys manylion penodol am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol clinigol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Dywedodd yr uwch-aelodau o staff wrthym fod angen mwy o staff yn yr adran, ond roeddent o'r farn fod yr adran yn llwyddo i gynnal lefel briodol o wasanaeth ar hyn o bryd. Roedd hyn yn rhannol gan ei bod yn defnyddio staff asiantaeth / locwm sy'n gweithio yn yr adran pan fydd prinder staff.

Dywedwyd wrthym ei bod yn anodd recriwtio i'r adran, ac mai dyma un o'r risgiau allweddol i'r gwasanaeth. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt o ran sut y gellir ymdrin â'r risg hon i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Roedd y swyddi gwag yn yr adran yn cynnwys pedwar radiograffydd band pump. Cynhaliwyd cyfweiliadau a phenodwyd unigolion, ond gan mai myfyrwyr yw'r unigolion a benodwyd, mae'n rhaid i'r gwasanaeth aros tan fis Gorffennaf 2020 iddynt gymhwyso cyn iddynt allu dechrau gweithio yn yr adran.

Mae pedair swydd wag hefyd ar gyfer radiograffwyr band chwech, y mae dwy o'r swyddi yn rhan o'r tîm ymyriadol, sy'n golygu bod y gwasanaeth yn fregus. Roedd cyfweiliadau wedi'u trefnu ar gyfer dwy o'r swyddi hyn ar gyfer yr wythnos yn dilyn ein harolygiad.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y trefniadau i leihau effaith swyddi gwag ar y ffordd y darperir y gwasanaeth. Roedd yn amlwg bod y gweithlu presennol yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol a hyblyg iawn er mwyn bodloni'r galw am y gwasanaeth.

Roedd yr aelodau o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw o'r farn fod y lefelau staffio yn ddiogel. Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr a dywedwyd wrthym hefyd fod yr uwch-reolwyr

yn hawdd iawn mynd atynt, pe byddai ganddynt unrhyw ymholiadau yr oedd angen cyngor arnynt.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith ar gyfer rhoi hawl i 'ymarferwyr', 'gweithredwyr' ac 'atgyfeirwyr'.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant ar gyfer 'ymarferwyr' a 'gweithredwyr' a oedd yn gweithio yn yr adran. Roedd y rhain yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol a bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu mewn perthynas â chynnal cysylltiadau ac archwiliadau. Roedd y cofnodion hyn hefyd yn nodi cwmpas ymarfer pob unigolyn yn glir.

Cadarnhaodd y staff radioleg fod hyfforddiant ar gael iddynt a'u bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-aelodau o staff i ddiwallu eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd (2018).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn dod i gysylltiad yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Mae gwasanaethau'n cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ward/adran: Yr Adran Radioleg

Dyddiad arolygu: 11 a 12 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol yn ystod yr arolygiad.	Dd/G			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ward/adran: Yr Adran Radioleg

Dyddiad arolygu: 11 a 12 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r BIP sicrhau y caiff cleifion wybodaeth fel mater o drefn sy'n amlinellu'r risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Caiff y dasg hon ei chynnwys fel rhan o weithdrefnau'r cyflogwr yn y Bwrdd lechyd. Atgoffwyd y staff fod angen sicrhau y caiff pob claf ei hysbysu am risgiau a buddiannau cyn cael ei archwiliad. Rydym hefyd wedi rhoi rhagor o wybodaeth ym mhob ystafell archwilio ynghyd â'r wybodaeth 'Pause & Check' sy'n gofyn i Radiograffwyr a ydynt wedi hysbysu'r claf am y risgiau a'r buddiannau.	Paul Johnston	24 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Yn ogystal, byddwn yn cynnwys cwestiwn sy'n gofyn i gleifion a gawsant eu hysbysu yn ein holiadur boddhad cleifion.</p> <p>Byddwn hefyd yn cynnwys gwiriadau fel rhan o'n harchwiliadau arsylwadol yn y dyfodol.</p>	<p>Andrew Thomas</p> <p>Sarah Rees</p>	<p>Ar gyfer yr arolwg boddhad cleifion nesaf – yn debygol o gael ei gynnal yn 2021 (cynhelir yr arolygon bob dwy flynedd).</p> <p>Bydd yr archwiliadau arsylwadol yn dechrau ym mis Mawrth 2020.</p>
<p>Mae'n rhaid i'r BIP sicrhau y caiff cleifion wybodaeth fel mater o drefn, sy'n nodi â phwy y dylent gysylltu os bydd unrhyw broblemau yn dilyn eu triniaeth.</p>	<p>4.2 Gwybodaeth i gleifion</p>	<p>Anfonwyd nodyn atgoffa at bob aelod o'r staff i'w hatgoffa am eu cyfrifoldeb i sicrhau bod cleifion yn gwbl ymwybodol â phwy y dylid cysylltu.</p>	<p>Paul Johnston</p>	<p>24 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Rydym hefyd wedi llunio poster a roddwyd ym mhob ardal aros yn nodi y caiff canlyniadau eu dychwelyd at y person a atgyfeiriodd y claf am archwiliad.</p> <p>Mae'n nodi y dylai'r claf ofyn i'r Radiograffydd sy'n cynnal yr archwiliad neu'r derbynnydd os nad yw'n siŵr pwy a'i atgyfeiriodd.</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r BIP roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran, er mwyn helpu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'.</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Mae posteri yn gwahodd cleifion i ofyn a hoffent gael eu harchwiliad yn Gymraeg bellach wedi'u harddangos yn holl dderbynfeydd y Gyfarwyddiaeth Radioleg.</p>	<p>Collette Jones / Marc Phillips</p>	<p>Cwblhawyd 10 Ionawr 2020</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r BIP roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i hysbysu cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros ar y pryd mewn ffordd well.</p>	<p>5.1 Mynediad amserol</p>	<p>Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn adborth, gall hyn fod yn anodd weithiau gan fod cymaint o gleifion yn cyrraedd heb amseroedd penodol ar gyfer apwyntiadau. Fodd bynnag, hysbyswyd pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau y caiff cleifion eu hysbysu am unrhyw oedi ac rydym hefyd wedi llunio gwybodaeth i'w</p>	<p>Paul Johnston</p>	<p>24 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		harddangos yn ein hardaloedd aros yn annog y cleifion i siarad ag aelod o staff os byddant wedi bod yn aros ers cryn dipyn o amser.		
Mae'n ofynnol i'r BIP ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwbl ymwybodol o'u hawl i godi pryderon am eu gofal neu driniaeth yn y GIG.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Rydym wedi trafod y mater â thîm pryderon y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi adolygu'r wybodaeth a roddir i gleifion ym mhob un o'n Hadrannau Radioleg ac wedi arddangos gwybodaeth ychwanegol i gleifion mewn manau mwy amlwg.	Paul Johnston / Ruth Friel	24 Ionawr 2020
Dylai'r BIP sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n hysbysu cleifion am rôl y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC).	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Rydym wedi cysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned ac mae wedi anfon posteri atom sydd bellach wedi'u harddangos mewn manau amlwg yn ardaloedd aros yr Adran.	Collette Jones / Marc Phillips	Cwblhawyd 10 Ionawr 2020
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cynnal gwiriadau adnabod ar	Atodlen 2 (a) Rheoliad 10 (4)	Hysbyswyd pob aelod o'r staff am eu dyletswydd i gynnal gwiriadau adnabod priodol cyn i gleifion ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Yn ychwanegol at hyn,	Paul Johnston	24 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gyfer cleifion cyn pob cysylltiad, yn unol â gweithdrefn y BIP.		mae'r poster 'STOP' a atodir uchod wedi cael ei osod yn holl ystafelloedd archwilio'r adran Radioleg.		
Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod y gwiriadau gofynnol o statws beichiogrwydd yn cael eu cynnal gan y staff fel mater o drefn ac y caiff cofnodion y cleifion eu diweddarau er mwyn dangos tystiolaeth bod gwiriad wedi'i gynnal.	Atodlen 2 (c) Rheoliad 11 (1) (f)	Hysbyswyd pob aelod o'r staff am eu dyletswydd i gynnal gwiriadau statws beichiogrwydd priodol cyn i gleifion ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Yn ychwanegol at hyn, mae'r poster 'STOP' a atodir uchod wedi cael ei osod yn holl ystafelloedd archwilio'r adran Radioleg.	Paul Johnston	24 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod dogfennaeth yn glir a chyson mewn perthynas â hawl Everlight Radiology i ddarparu'r gwasanaethau radioleg a ddarperir ar ran y BIP.	Atodlen 2 (b)	Diwygiwyd y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ioneiddio er mwyn nodi darparwyr allanol (fel Everlight) fel Ymarferwyr ac mae rhestr gyfredol o'r ymarferwyr â hawl sy'n gweithio i'r cwmni ar gael yn yr Adran Radioleg.	Paul Johnston	24 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau pob cysylltiad.	Rheoliad 11 (1) (b) Rheoliad 11 (2) (a-d)	Diwygiwyd y weithdrefn ar gyfer cyflawni gweithgareddau delweddu a gyfiawnhawyd gan Everlight hefyd er mwyn sicrhau y bydd y Radiograffydd bellach yn gofyn am enw'r unigolyn a	Sarah Rees / Paul Johnston	24 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfiawnhaodd yr archwiliad ac yn ei gofnodi ar ffurflen gais yr adran Radioleg.		
<p>Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerir i sicrhau y caiff adroddiadau gwerthuso clinigol ar gleifion eu cwblhau fel mater o drefn o fewn terfyn amser rhesymol.</p>	Rheoliad 12 (9)	<p>Mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt:</p> <p>Rydym wedi cyflogi Radiolegydd Ymgynghorol locwm i lunio adroddiadau ar astudiaethau CT ac MRI.</p> <p>Rydym yn cynnig sesiynau ychwanegol i Radiolegwyr Ymgynghorol er mwyn iddynt lunio adroddiadau.</p> <p>Rydym wedi cynnwys sesiynau penodedig o fewn amserlenni'r Radiolegwyr Ymgynghorol er mwyn cymeradwyo astudiaethau colon CT gan radiograffwyr.</p> <p>Rydym yn cyflwyno sesiynau 'tawel' ar gyfer llunio adroddiadau er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y staff a'r gobaith yw y gellir cynyddu cynhyrchiant o ran llunio adroddiadau.</p>	Dr Sally Bolt	Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rydym yn adolygu ein sesiynau 'Radiolegwyr ar Ddyletswydd' er mwyn ceisio sicrhau bod mwy o waith yn cael ei wneud gan staff ysgrifenyddol lle y bo'n briodol.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerir i sicrhau y cynhelir dadansoddiadau manwl (gan gynnwys dadansoddi themâu a thueddiadau) o gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu ac y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith.	Rheoliad 8 (3)	<p>Caiff pob digwyddiad ymbelydredd bellach ei goladu bob chwarter a'i drafod fel eitem sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Clinigol yr Adran Radioleg.</p> <p>Caiff digwyddiadau eu categoreiddio yn ôl themâu, felly hefyd unrhyw gamau gweithredu a gymerir.</p> <p>Dim ond digwyddiadau o'r chwarter blaenorol a gaiff eu trafod ym mhob cyfarfod, ond caiff y themâu eu hadolygu ar yr un pryd er mwyn ceisio sicrhau y caiff unrhyw batrymau eu nodi.</p>	Paul Johnston / Dr Phillip Wardle	Parhaus yn holl Gyfarfodydd Llywodraethu Clinigol yr Adran Radioleg
Dylai gweithdrefn y cyflogwr gynnwys manylion penodol am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol clinigol.	Rheoliad 8 (1) Atodlen 2 (1) (l)	Drafftwyd gweithdrefn ddiwygiedig gan y Cyflogwr yn dilyn cyngor gan yr Uwchswyddog Diagnostig Clinigol, Public Health England, a oedd yn bresennol yn	Paul Johnston gyda chymorth a chyngor gan yr Uwchswyddog	29 Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ystod yr arolygiad, gan weithredu fel cynghorydd.</p> <p>Mae'r Uwch-swyddog Diagnostig Clinigol wedi cynnig gwneud sylwadau pellach ac mae'r Gyfarwyddiaeth Radioleg yn aros am y sylwadau hynny. Os na all yr Arolygydd wneud sylwadau pellach, yna caiff y weithdrefn ddiwygiedig ei rhoi ar waith erbyn 29 Chwefror 2020 fan bellaf.</p>	Diagnostig Clinigol	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Paul Johnston

Swydd: Radiograffydd Arolygol

Dyddiad: 22 Ionawr 2020